Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Canolfan Delweddu Tomograffeg Gollwng Positronau Cymru at ddibenion Ymchwil a Diagnostig (PETIC), Prifysgol Caerdydd

## Dyddiad yr arolygiad: 12 a 13 Gorffennaf 2022

## Dyddiad cyhoeddi: 12 Hydref 2022



Mae’r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN digidol 978-1-80364-935-1
© Hawlfraint y Goron 2022

Yn gyffredinol, o'r dystiolaeth a archwiliwyd gennym, canfuom fod cydymffurfedd â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn dda.

Roedd adborth cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran yn gadarnhaol iawn.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion mewn ffordd garedig, barchus a phroffesiynol. Yn ogystal, roedd trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion sy'n ymweld â'r adran.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ganiatáu ar gyfer atal a rheoli heintiau yn effeithiol yn yr adran.

Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi cydymffurfedd rheoleiddiol parhaus. Roedd arweinyddiaeth weledol a chefnogol yn cael ei darparu yn yr adran. Gwnaeth y staff ddangos bod ganddynt yr wybodaeth a sgiliau cywir i ymgymryd â'u rolau yn yr adran.

Nodwyd rhai meysydd i'w gwella.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Delweddu Tomograffeg Gollwng Positronau Cymru at ddibenion Ymchwil a Diagnostig (PETIC), Prifysgol Caerdydd, ar 12 a 13 Gorffennaf 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC ac uwch-swyddog clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o’r adroddiad wedi’i chynllunio ar gyfer aelodau’r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi’i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy’n disgrifio’r holl ganfyddiadau sy’n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd profiad y claf

## Crynodeb cyffredinol

- Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran
- Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a chanfuom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol
- Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu’r cleifion sy'n mynychu'r adran. Mae modd i'r lleoliad wella'r trefniadau hyn ymhellach drwy ddarparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg i’r cleifion

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd sylwadau a dderbyniwyd gan y cleifion yn cadarnhau eu bod yn fodlon iawn ar eu profiad o ymweld â'r adran
- Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Amgylchedd sydd mewn cyflwr da a chanddo arwyddion da

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Angen rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' i’r cleifion i’w hannog i ofyn am gael siarad â rhywun yn Gymraeg
- Arddangos bwrdd gyda'r canlyniadau, sylwadau a chamau gweithredu o adborth

Yng ngeiriau'r cleifion:

*"Roedd y lleoliad heddiw yn rhagorol; roedd y staff yn gwrtais ac yn effeithlon."*

*"Staff cyfeillgar a phroffesiynol iawn."*

*"Mae'r gwasanaeth dwi wedi'i dderbyn wedi bod yn wych."*

*"Gwasanaeth ardderchog. Staff yn anhygoel."*

*"Staff cyfeillgar. Calonogol."*

*"… gwneud i deimlo bod croeso a'u bod yn gofalu amdanaf."*

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Crynodeb cyffredinol

- Yn gyffredinol, roedd cydymffurfedd da â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Canfuom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion sy'n ymweld â'r adran
- Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol ar waith gan y gwasanaeth i sicrhau bod modd atal a rheoli heintiau yn effeithiol yn yr adran

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Defnydd effeithiol o Q-Pulse, y feddalwedd rheoli ansawdd, i reoli gweithdrefnau a chyfarwyddiadau gwaith y cyflogwr
- Lefelau da o gymorth gan feddygon ymgynghorol ac arbenigwyr ffiseg feddygol
- Darperir hyfforddiant i weithredwyr ac ymarferwyr
- Sicrhau bod dosau ar gyfer gweithdrefnau diagnostig mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol
- Ymarferwyr ac arbenigwr ffiseg feddygol yn ymwneud â gosod lefelau cyfeirio diagnostig, islaw'r lefelau cenedlaethol

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Darparu gwybodaeth lawn am y broses o sicrhau hawl i atgyfeirwyr a gweithredwyr
- Cynnwys gwybodaeth am ddosau mewn canllawiau atgyfeirio
- Sicrhau bod archwiliadau a gwblhawyd gan glinigwyr, yn enwedig y rhai y tu allan i PETIC, yn cael eu bwydo i mewn i'r rhaglen archwilio a'r canlyniadau er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

***"Cefais fy hysbysu'n llawn trwy gydol y weithdrefn a gwnaethant wneud i mi deimlo'n gartrefol drwy gydol y broses…"***

***"Esboniwyd y weithdrefn. Staff dymunol a chymwynasgar iawn."***

***"Staff cyfeillgar iawn a esboniodd bob cam. Profiad dymunol."***

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Crynodeb cyffredinol

- Roedd strwythur rheoli â llwybrau adrodd eglur ar waith. Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi cydymffurfedd rheoleiddiol parhaus. Gwelsom arweinyddiaeth weledol a chefnogol yn cael ei darparu o fewn yr adran
- Gwnaeth y staff ddangos bod ganddynt yr wybodaeth a sgiliau cywir i ymgymryd â'u rolau yn yr adran
- Roedd staff hefyd yn gadarnhaol yn yr holiadur wrth roi sylwadau am ansawdd y gofal sy'n cael ei roi ganddynt i'r cleifion ac o ran argymell eu sefydliad fel lle i weithio

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd holiadur hunanasesu AGIC yn cael ei gwblhau mewn modd amserol
- Cydymffurfedd da â hyfforddiant gorfodol staff ac arfarniadau
- Tystiolaeth o reolaeth dda

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod yr holl weithdrefnau gofynnol ar waith ac yna adolygu'r wybodaeth hon i sicrhau bod popeth wedi'i gynnwys o'r holiadur hunanasesu

**Dywedodd y staff wrthym:**

> *"Diwylliant agored a chadarnhaol o ran digwyddiadau a dysgu o ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd."*
>
> *"Mae angen sganiwr newydd i gynyddu'r gallu i sganio. Capasiti cyfyngedig sydd gan y sganiwr presennol ac mae'r cyfleuster yn gweithredu hyd eithaf ei allu. Mae cyllid wedi'i sicrhau ac yn cael ei gaffael."*
>
> *"Symleiddio dogfennaeth ormodol, cynyddu lefelau staffio."*
>
> *"Darperir lefel dda o hyfforddiant o fewn y cyfleuster hwn ac anogir cyfleoedd hyfforddi allanol yn frwd gan gyfarwyddwr y cyfleuster."*
>
> *"Mae PETIC wedi'i staffio gan staff rhagorol a gofalgar y mae'n bleser gweithio gyda nhw."*
>
> *"Fel rhywun sy'n newydd i PETIC, mae'r ffocws ar welliant parhaus a'r ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da er budd y claf wedi creu argraff arnaf."*

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

